# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Consensus Community Support Limited**

**Swyddfa Gofrestredig Consensus Community Support**
**Canolfan New Horizons Opportunities (swyddfa fyny'r grisiau)**
**Poolhead, Chwilgrug**
**Casnewydd**
**NP26 3DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/02/2023

***Welsh Government © Crown copyright 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Consensus Community Support Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Consensus Community Support Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn derbyn cymorth ac anogaeth i ddilyn ffordd o fyw egnïol a gwneud dewisiadau dyddiol. Mae'r staff yn trin y bobl ag urddas a charedigrwydd. Mae pob person yn cael gwasanaeth wedi'i deilwra at ei anghenion unigol, ei hoff bethau a'i gas bethau. Maent yn cael eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal a'r rheolwyr yn gyfeillgar, yn frwdfrydig ac yn ceisio gwneud gwahaniaeth i'r bobl.

Mae'r bobl yn elwa ar wasanaeth sy'n cael ei reoli'n dda. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr. Maent yn dangos gwybodaeth drwyadl am y bobl sy'n cael cymorth. Maent yn ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'r cymorth maent yn ei ddarparu i'r bobl.

Mae systemau sefydledig ar waith i alluogi'r rheolwyr a'r staff gofal i gynllunio a darparu gofal a chymorth yn ddiogel.Mae rheolwr sydd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio yn y lleoliad. Mae darparwr y gwasanaeth yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Mae cyswllt uniongyrchol a rheolaidd rhwng y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol a'r bobl a'u perthnasau.

## Llesiant

Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael dewis gwneud y pethau maent yn eu mwynhau. Gwnaethant sôn wrthym am yr hyn sy'n bwysig iddynt, sut maent yn cadw'n brysur ac am y cymorth maent yn ei dderbyn gan y staff gofal a'r rheolwyr. Mae'r staff gofal yn bodloni eu dymuniadau a chan eu bod yn eu hadnabod yn dda, gallant ragweld eu hanghenion. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn eu cartrefi, yn eu hardal leol ac ymhellach i ffwrdd. Maent yn cael eu cynnwys wrth wneud unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'r cymorth a gânt. Pan fydd angen cymorth ar y bobl i gael dewis a rheolaeth, mae sut y gall y gweithwyr gofal eu cefnogi wedi'i nodi yn eu dogfennaeth gofal. Mae darparwr y gwasanaeth yn ymgynghori â nhw, eu teuluoedd a'r staff.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl, a hynny'n gorfforol ac yn feddyliol. Mae hyn yn cynnwys eu hannog i fwyta deiet iach a rhoi cymorth iddynt â'u meddyginiaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn monitro iechyd y bobl a chaiff atgyfeiriadau ac apwyntiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol eu trefnu pan fo angen. Cânt eu cefnogi i gael dewisiadau, i gadw'n actif ac i gynnal cydberthnasau ystyrlon. Gwelsom y staff gofal yn neilltuo amser i siarad â'r bobl. Soniodd y bobl wrthym hefyd am y gweithgareddau y maent yn eu cynllunio.  Mae meithrin cydberthnasau da â’r unigolion o’u cwmpas a threfnu pethau i edrych ymlaen atynt yn hybu eu lles emosiynol.

Mae mesurau ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Caiff y staff gofal hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i'w harwain. Mae cynlluniau rheoli risg ar waith, ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, er mwyn cadw'r bobl mor ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Cânt eu cefnogi gan dîm sefydledig sy'n ymwybodol o'r arwyddion sy'n dangos pan fydd y bobl o bosibl yn agored i niwed. Mae'r bobl hefyd yn elwa ar wasanaeth a gaiff ei arwain gan dîm rheoli profiadol. Yn olaf, mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dod i gysylltiad â phobl y tu allan i'r gwasanaeth, ac maent yn gwybod y gallant siarad â nhw os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fo ei angen arnynt. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl a nodwyd eu bod yn amlwg yn adnabod ei gilydd yn dda ac yn rhyngweithio mewn ffordd naturiol. Gwelsom fod y staff yn annog y bobl, yn tawelu eu meddyliau ac yn dangos dealltwriaeth glir o'u hanghenion. Soniodd y bobl wrthym am y cymorth y maent yn ei gael gan y gweithwyr gofal, am y bobl y maent mewn cysylltiad rheolaidd â nhw ac am y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi gan dîm sefydlog sy'n cynnwys gweithwyr gofal a rheolwyr hirsefydledig.

Mae dogfennaeth ar waith ar gyfer pob person. Mae'n adlewyrchu gwybodaeth a gasglwyd gan y bobl ac unigolion eraill arwyddocaol, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r cynlluniau personol i gyd wedi'u teilwra'n benodol at yr unigolyn. Gwelsom fod cofnodion y bobl yn cynnwys yr hyn y maent am ei gyflawni, beth yw diwrnod da a sut beth yw diwrnod gwael iddynt. Mae'r cynlluniau yn cynnwys yr holl feysydd lle mae angen cymorth ar y bobl. Maent yn cynnwys "*what support is needed/steps to follow to support*" ar gyfer pob person. Gwelsom fod y cynlluniau yn cynnwys y ffyrdd gorau o gyfathrebu â phob person a chynlluniau sy'n dangos y camau y mae'n rhaid i'r staff eu dilyn i'w galluogi i gael dewis a rheolaeth. O ddydd i ddydd, mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cofnodion dyddiol sy'n dangos yr hyn y mae'r bobl wedi'i wneud, yr hyn a aeth yn dda ac unrhyw broblemau. Gwelsom fod cyfarfodydd gweithwyr allweddol yn cael eu cynnal bob mis, bod pob agwedd ar fywydau'r bobl yn cael ei hadolygu, a bod y pethau sy'n gweithio a'r pethau nad ydynt yn gweithio yn cael eu hystyried. Yn dilyn hynny, caiff cynllun gweithredu ei lunio, sef "*Success/Action Plan - Steps required to help me succeed with my goals and aspirations*". Gwelsom hefyd fod cynlluniau cymorth yn cael eu hadolygu yn dilyn y cyfarfodydd adolygu a gynhelir bob mis a bob tri mis; mae hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i ddiogelu'r bobl y mae'n eu cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ac yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am rywun y maent yn ei gefnogi. Pan fydd y bobl am ymgymryd â gweithgareddau a allai beri risgiau, caiff y risgiau hyn eu hadolygu, a llunnir cynlluniau rheoli risg. Mae'r rhain yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Gwelsom fod 'taflen wybodaeth barod' a phroffil cyfathrebu ar gyfer pob person. Mae'r dogfennau hyn yn crynhoi dogfennaeth gofal y bobl ac yn sicrhau bod y bobl yn parhau i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, er enghraifft os cânt eu derbyn i'r ysbyty.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael budd o dîm arwain a rheoli effeithiol. Mae'r adborth a gawsom gan y bobl yn dangos bod ganddynt gydberthnasau da iawn â'r staff a'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth gan yr asiantaeth. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau sy'n glir ac yn addas at y diben. Gwelsom fod y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn cynnal archwiliadau rheolaidd ac yn adolygu'r wybodaeth a gesglir. Yn ogystal, mae'r unigolyn cyfrifol yn gofyn am adborth gan y bobl sy'n cael eu cefnogi, eu perthnasau a'r staff mor aml ag sy'n ofynnol ac yn cwblhau'r adroddiadau angenrheidiol. Mae gwybodaeth hawdd ei darllen ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sy’n esbonio’r hyn y mae’r gwasanaeth yn ei gynnig a sut i wneud cwyn neu leisio barn.

Mae trefniadau ar waith i recriwtio, hyfforddi a chefnogi'r staff. Gwelsom fod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cynnwys yng nghamau cychwynol y gweithgareddau recriwtio. Maent yn cael cyfle i gyfarfod ag ymgeiswyr sydd eisoes wedi'u fetio ac i roi adborth. Gwnaethom edrych ar y cofnodion recriwtio er mwyn gweld pa wiriadau y mae darparwr y gwasanaeth yn eu cynnal ar ôl cynnig swydd i ymgeisydd. Mae'r rhain yn dangos bod darparwr y gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol cyn y gall unigolyn ddechrau gweithio yn y cartref.

Mae'r cofnodion goruchwylio a hyfforddi yn dangos bod prosesau ar waith i roi cymorth i'r staff a'u datblygu. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi bod yn destun cyfnod sefydlu ar y cychwyn, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr sy'n gwrando arnynt a chan eu cydweithwyr. Gwnaethant nodi hefyd fod yr hyfforddiant a ddarperir yn dda. Dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi gan ddarparwr y gwasanaeth a'i fod yn gofalu amdano. Dywedodd un arall wrthym fod digon o bobl y gall droi atynt a bod cyfleoedd i gael dyrchafiadau gyrfa. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae’r ddogfennaeth a welsom yn dangos bod aelodau newydd o staff yn cwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan, eu bod yn cael gwybod am God Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol, eu bod yn cwblhau shifftiau cysgodol a'u bod yn cael amser i ddarllen y dogfennau sy’n ymwneud â'r bobl a’r gwasanaeth. Roedd pob rheolwr a gweithiwr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn dangos diddordeb, brwdfrydedd ac ymrwymiad tuag at eu rolau. Maent yn cael cymorth i gyflawni, ac maent yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn amrywio o lefel 2 i lefel 5.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2023